ECAD7004C

Sesiwn 1:

Cyflwyniad i'r modwl

Ail-ymweld â'r Ymagweddau Ymchwil

YMCHWIL

ECAD7004C Astudiaethau Proffesiynol ac Addysgol: Ymchwilio i'r Dysgu: beth, sut a pham ydw i'n addysgu?

Arweinwyr Modwl ECAD7004C:

Dr. Catherine Morgan c.morgan@uwtsd.ac.uk (cyfrwng Cymraeg)

Elaine Sharpling elaine.sharpling@uwtsd.ac.uk

Dysgu proffesiynol

Darllen ehangach a chanfyddiadau ymchwil

Mae ymgysylltiad strwythuredig a chymuned ymchwil gweithredu a thystiolaeth o arfer wedi'i llywio gan ddarllen ehangach a chanfyddiadau ymchwil ar raddfa genedlaethol a rhyngwladol.

SAC

Mae'r athro'n gwneud penderfyniadau rhesymegol o ran eu haddysgeg yn seiliedig ar ganfyddiadau darllen ac ymchwil perthnasol.

Addysgu

Pam ddylai athrawon ymchwilio? – Safonau Proffesiynol



Mae athrawon yn gweld eu hunain yn ddysgwyr proffesiynol ac yn ymrwymo i ymgysylltu'n barhaus a datblygiad gydol gyrfa, cydweithio ac arloesi.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

POLISI A STRATEGAETH

Y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad Addysgol: dogfen weledigaeth

Nod y Strategaeth hon yw sicrhau bod polisi ac arferion addysgol yng Nghymru yn cael eu llywio gan y dystiolaeth ymchwil orau sydd ar gael a chan ymholiad disgybledig a gynhelir gan weithwyr addysg proffesiynol.

Cyhoeddwyd gyntaf: 30 Mehefin 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 30 Mehefin 2021

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i https://llyw.cymru/y-strategaeth-genedlaethol-ar-gyfer-ymchwil-ac-ymholiad-addysgol-dogfen-weledigaeth-html i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am hawlfraint.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

POLICY AND STRATEGY

The National Strategy for Educational Research and Enquiry (NSERE): vision document

The aim of the NSERE is that educational policy and practice in Wales should be informed by the best available research evidence and disciplined enquiry undertaken by educational professionals.

First published: 30 June 2021

Last updated: 30 June 2021

This document was downloaded from GOV.WALES and may not be the latest version.
Go to https://gov.wales/national-strategy-educational-research-and-enquiry-nsere-vision-document-html for the latest version.
Get information on copyright.

[Y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad Addysgol: dogfen weledigaeth | LLYW.CYMRU]

[The National Strategy for Educational Research and Enquiry (NSERE): vision document | GOV.WALES]

Trosolwg o’r sesiynau:

Dyddiad	Cynnwys	Lleoliad
Mawrth 5	Cyflwyniad / 'sylwi' / bod yn foesegol	Campws
Mawrth 6	Bod yn ymchwilydd medrus – astudiaethau achos ac offer ymchwil	Campws
Mawrth 11	Sylwi / Adolygiad Llenyddiaeth	Ar-lein
Mawrth 12	Cwestiwn Ymchwil	Campws
Mawrth 13	Diwrnod Paratoi Ymchwil	Ysgol
Mawrth 14	Ffurflen Foeseg	Ar-lein
Mawrth 15	Ymholiadau moeseg / dadansoddi data / gweithgaredd y farchnad	Campws
Mawrth 18	Cefnogaeth aseiniad	Ar-lein

Dyddiadau Pwysig

Dyddiad	Digwyddiad
Dydd Llun 8 Ebrill – Dydd Iau 2 Mai	Ffenestr Ymchwil
Dydd Gwener 3 Mai	Diwrnod Ysgrifennu
Dydd Llun 6 Mai	Gwyl y Banc
Dydd Mawrth 7 Mai 23:59	Cyflwyno’r aseiniad

Deilliannau Dysgu:

Cynllunio a chymhwyso	Adfyfyrio	Dangos	Dadansoddi a gwerthuso	Gwerthuso
gynllunio a chymhwyso methodolegau ymchwil priodol sy'n dangos dealltwriaeth feirniadol o natur ymchwil addysgol: bod yn ymchwilydd medrus;;	adfyfyrio'n feirniadol ar le canolog arfer moesegol o fewn ymchwil yn y ddosbarth, ac arddangos dealltwriaeth fanwl o'i egwyddorion: bod yn ymchwilydd moesegol	dangos rhywfaint o ymreolaeth wrth gynnal ymholiad agos-at-ymarfer i drawsnewid agwedd ar arfer personol sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau dysgwyr: dangos trylwyredd wrth gymhwyso sgiliau ymchwil priodol;	Dadansoddi a gwerthuso'n feirniadol dystiolaeth empirig berthnasol, gan gynnwys llenyddiaeth addysg a dogfennau polisi, i nodi cysyniadau allweddol a defnyddio hyn i ffurfio dulliau addas i drawsnewid arfer dosbarth;	gwerthuso tystiolaeth ymchwil yn feirniadol, gan ddangos barn gadarn am ddata i gefnogi penderfyniadau addysgegol a rhannu mewn cyd-destun proffesiynol: bod yn rhan o broffesiwn sy'n seiliedig ar ymholi

Manyleb Asesu

Dylunio, cynnal a gwerthuso'n feirniadol brosiect ymchwil agos at ymarfer (astudiaeth achos) gan ganolbwyntio ar fodel yr athro trawsnewidiol wrth ddatblygu ymarfer sy'n cael effaith gadarnhaol ar y dysgwr.

ASEINIAD ECAD7004C

Gwaith cwrs (100%): Aseiniad Ysgrifenedig Unigol

Prosiect ymchwil – Astudiaeth achos archwiliadol sy’n deillio o ymarfer (sylwi) ac ymchwiliad pellach drwy’r offer ymchwil a nodwyd. Mae’r aseiniad yn gorffen gydag adnabyddiaeth o ymyrraeth y gellir ei dreialu trwy PAP a’i dystiolaethu trwy fyfyrio yn y PDP (safonau dysgu proffesiynol).

4500 o eiriau

Dyddiad cyflwyno: Mai 7fed, 2024, 23:59yh

ECAD7004C
Ymchwilio i'r Dysgu, beth, sut a pham ydw i'n addysgu?

Ymagweddau Ymchwil Yr Athrofa

Bod yn sgeptigol

- Deall tystiolaeth empirig mewn meysydd a amheuir
- Bod yn ymwybodol o yrwyr gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol ar gyfer 'tystiolaeth'

Bod yn foesegol

- Gwybod a defnyddio egwyddorion moesegol ymchwil.
- Deall safleoldeb (positionality)

Bod yn ymchwilydd medrus

- Deall dulliau ansoddol (qualitative) a meintiol (quantitative) methods
- Gallu llunio dadl yn seiliedig ar dystiolaeth
- Defnyddio sgiliau darllen beirniadol

Bod yn rhan o broffesiwn ymholgar

- Cyfrannu'n rhagweithiol at ystod o gynulleidfaoedd
- Cymryd rhan weithredol mewn ymholiadau a chanfyddiadau pobl eraill

Cyfrannu i gymuned o ymarferwyr sy'n ymholi:

- gwybod pa un ai i rannu deilliannau ymholiad dosbarth, pryd a sut;
- cyfrannu'n rhagweithiol i ystod o gynulleidfaoedd;
- mynd i'r afael yn weithredol â'r ymholiad a chanfyddiadau pobl eraill.

Enghraifft	Enghraifft	Enghraifft
Enghraifft	***Bod yn ymchwilydd medrus***	[Manylion] →
Enghraifft	Enghraifft	Enghraifft

- Deall egwyddorion ymchwil y gwyddorau cymdeithasol, a gwybod y gwahanol fathau o ddulliau a ddefnyddir a pham…
- Deall sut i adeiladu dadl ar sail tystiolaeth a gwarant mewn ymchwil addysgol…
- Gwerthfawrogi'n feirniadol faint o gefnogaeth a all fod ar gael neu beidio ar gyfer theorïau poblogaidd a dylanwadol mewn meysydd megis datblygiad plant a natur dysgu…
- Deall sut i ddefnyddio tystiolaeth empirig yn eich ystafelloedd dosbarth a gwerthuso ei heffeithiolrwydd…

Enghraifft	↑ [Manylion]	Enghraifft
Enghraifft	***Bod yn rhan o broffesiwn sy'n ymholi***	Enghraifft
Enghraifft	Enghraifft	Enghraifft

	Bod yn ymchwilydd medrus	
Bod yn rhan o broffesiwn sy'n ymholi	**Ymagweddau Ymchwil**	***Bod yn foesegol***
	Bod yn sgeptigol	

Enghraifft	Enghraifft	Enghraifft
Enghraifft	***Bod yn foesegol***	Enghraifft
Enghraifft	[Manylion] ↓	Enghraifft

Deall tystiolaeth empirig mewn maes dadleuol; bod yn ymwybodol o'r gyrwyr gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol o blaid 'tystiolaeth', a goblygiadau 'tystiolaeth'.

Enghraifft	Enghraifft	Enghraifft
← [Manylion]	**Bod yn sgeptigol**	Enghraifft
Enghraifft	Enghraifft	Enghraifft

Deall sylfaen foesegol ymholiad mewn gweithle cymhleth;

- gwybod egwyddorion moesegol ymchwil;
- deall safleoliadaeth (*positionality*) o fewn ymchwil;
- adnabod eu credoau a'u tybiaethau eu hunain am y byd.

Ymwneud â'r Ymagweddau Ymchwil

Enghraifft	Enghraifft	Enghraifft
Enghraifft	***Bod yn rhan o broffesiwn sy'n ymholi*** Cyfrannu i gymuned o ymarferwyr sy'n ymholi: • gwybod pa un ai i rannu deilliannau ymholiad dosbarth, pryd a sut; • cyfrannu'n rhagweithiol i ystod o gynulleidfaoedd; • mynd i'r afael yn weithredol â'r ymholiad a chanfyddiadau pobl eraill.	Enghraifft
Enghraifft	Enghraifft	Enghraifft

Dechrau meddwl am destun ymchwil posibl



“Most applied research begins when you select an everyday problem, interest or concern for further study” (Machi & McEvoy, 2008, p.16).

Y Gelfyddyd o Sylwi

“teachers need to develop an ‘inquiry stance’ – here the term inquiry refers to **teachers’ questioning and posing about their own context and ways of working,** whilst the metaphor of stance alludes to recognising an ‘orientation and position’”.

(Cochran-Smith, 2011, tud.22)

Beth oedd fy mhryder yn fy ystafell ddosbarth?

- Addysgeg (Pedagogy)
- Cynnydd y dysgwyr
- Rheolaeth ddosbarth
- Asesu
- Amgylchedd dosbarth
- Adnoddau
- Her (Challenge)
- Ymgysylltu (Engagement)

Ar ôl i chi nodi maes y gallwch ymchwilio, gofynnwch i'ch hun:

- Oes gen i reolaeth dros unrhyw agwedd ar y mater?
- A yw'r mater yn rhywbeth y gellir ei reoli a'i astudio yn ymarferol?
- A fydd y mater hon yn caniatáu imi brofi, herio, a myfyrio’n ddwfn ar fy ngwerthoedd a chredoau personol?

Cwblhewch Taflen Waith 1

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Centre for Education Addysg i Gymru | Education for Wales

Taflen Waith 1:
Mynegwch eich pryderon neu’ch arsylwadau

Rwy’ wedi sylwi bod...

Rwy’ wastad wedi meddwl tybed pam...

Rwy’n pryderu am...

Tybed beth fyddai’n digwydd petai...

Mae’n rhyfedd sut mae fy

UNRHYW GWESTIYNAU?

This Photo by Unknown Author is licensed under CC BY-NC-ND